

1. Gohiriwyd/Deferred

#	Cyfeirnod y Cais / Application Reference	Dyddiad y derbyniwyd / Received Date	Ymgeisydd / Applicant	Bwriad / Proposal	Lleoliad / Location	Argymheliad / Recommendation
1	A240479	24-06-2024	D I Evans (D I Evans Cyf)	Erection of an office building, retention of storage building, creation of car parking area and associated works.	D.i. Evans Cyf, Gwrthwynt, B4333 Beulah, Newcastle Emlyn, Ceredigion, SA38 9QE	Refuse

1.1. A240479



Rhif y Cais / Application Reference	A240479
Derbyniwyd / Received	24-06-2024
Y Bwriad / Proposal	Codi adeilad ar gyfer swyddfeydd, cadw'r adeilad storio, creu ardal barcio a gwaith cysylltiedig.
Lleoliad Safle / Site Location	D.I. Evans Cyf, Gwrthwynt, B4333 Beulah, Castellnewydd Emlyn, Ceredigion, SA38 9QE
Math o Gais / Application Type	Cynllunio Llawn
Ymgeisydd / Applicant	D I Evans (D I Evans Cyf), Gwrthwynt, Beulah, Castellnewydd Emlyn, Ceredigion, SA38 9QE
Asiant / Agent	Mr Daniel Lintin (JMS Planning and Development), Uned 4, Llawr Isaf, Creuddyn, Heol Pontfaen, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7BN

Y SAFLE A'I HANES PERTHNASOL

Safle busnes D.I Evans, ym mhen gogleddol pentref Beulah, yw safle'r cais. Mae'r safle yn ffinio i'r gogledd, y dwyrain a'r gorllewin â chaeau amaethyddol, gydag anheddau preswyl yn creu llinell o ddatblygiad ar hyd ffordd y pentref tua'r de. Mae'r safle'n ymestyn i tua 1.5ha ac mae nifer o adeiladau ar y safle ar hyn o bryd gan gynnwys adeiladau storio, adeiladau ar gyfer gwaith sortio a 'phortacabinau' ar gyfer staff. Mae'r safle wedi'i osod yn ôl tua 40 metr o'r brif ffordd, y tu cefn i dair annedd a elwir yn Gwrthwynt, Delfryn ac Awelon - mae'r cyntaf a'r trydydd o'r rhain yn berchen i weithredwyr y safle. Mae annedd Delfryn yn berchen i drydydd parti.

Busnes teuluol yw D.I Evans a fu'n darparu gwasanaeth contractio amaethyddol yn wreiddiol ac sydd wedi ehangu i'r sector rheoli gwastraff gan ddarparu ystod o wasanaethau megis llogi sgipiau, gwaredu gwastraff a deunydd ailgylchu, gwagio tanciau carthion, archwilio draeniau a chysylltu pibellau carthffosiaeth. Mae'r safle wedi cael ei ddefnyddio fel canolfan rheoli gwastraff ers 1960. Mae'r busnes yn cyflogi 11 aelod llawn-amser o'r staff a 6 aelod rhan-amser.

Hanes perthnasol y safle o ran Cynllunio

- 980250CL – Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon – Codi bloc concriid ac adeiladau wedi'u fframio a'u cladio – **Cymeradwywyd gydag amodau (11/05/1998)**
- 980251CL – Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon – Defnyddio fel depo Contractwyr Amaethyddol –**Cymeradwywyd gydag amodau (15/09/1998)**
- A070429 – Cynllunio Llawn - Creu man â chysgod ar gyfer Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff –**Cymeradwywyd gydag amodau (10/05/2007)**
- A110437 – Cynllunio Llawn - Creu man â chysgod ar gyfer Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff –**Tynnwyd yn ôl (19/07/2011)**
- A110693 – Cynllunio Llawn - Codi estyniad o ffrâm ddr wrth ochr ogledd-ddwyreiniol yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff bresennol – **Cymeradwywyd gydag amodau (11/04/2012)**
- A130034 – Cynllunio Llawn - Newid defnydd er mwyn cynnwys Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff (cydgrynhoi yn rhannol ganiatadau a oedd ar waith eisoes), hurio sgipiau a depo storio i gontractwyr, a chadw mynediad a defnydd amaethyddol a chontractol 24 awr, a chynnwys estyniad bychan o'r safle i gysoni ffiniau – **Cymeradwywyd gydag amodau (27/01/2014)**
- A220732 - Adran 73 - Amrywio amod 20 o ganiatâd cynllunio A130034 - newid yr oriau agor i 07:00-18:30 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. **Cymeradwywyd (16-02-2023)**
- A240078 - Cynllunio Llawn - Codi adeilad swyddfeydd, cadw'r adeilad storio, creu ardal barcio a gwaith cysylltiedig. -- **Gwrthodwyd (09-04-2024)**

MANYLION Y DATBLYGIAD

Mae'r cais yn gofyn am ganiatâd cynllunio llawn ar gyfer cael gwared ar y 'portacabinau' a ddefnyddir ar hyn o bryd fel swyddfa'r busnes a chodi adeilad deulawr newydd ar gyfer swyddfeydd, ymestyn y safle i'r de-ddwyrain i ddarparu lle parcio ychwanegol, a symud adeilad storio presennol i'r safle estynedig.

Bydd yr adeilad deulawr newydd arfaethedig ar gyfer y swyddfa wedi'i leoli ar hyd ffin orllewinol y safle, y tu cefn i dŷ Delfryn, yn meddiannu'n rhannol yr un ôl troed â'r adeilad storio unllawr presennol. Byddai'r adeilad arfaethedig yn mesur 15.2m wrth 9.15m, sy'n cyfateb i ôl troed o 135 metr sgwâr, gyda tho ar oleddf gan fesur 6.4m i grib y to. Bydd y waliau isaf yn cael eu rendro gyda llenni dur wedi'u cladio ar yr hanner uchaf. Bydd y to o lenni siment ffibr gyda phaneli solar. Y tu mewn bydd yr adeilad yn darparu derbynfaf, tair swyddfa, toiledau, cegin ac ystafell storio ar y llawr gwaelod ynghyd â dwy ystafell y bwrdd a thair ystafell storio.

Bydd yr adeilad storio unllawr presennol yn cael ei gadw ond caiff ei symud i gornel deheuol y safle a fydd yn cael ei ymestyn, i wneud lle ar gyfer yr adeilad deulawr arfaethedig ar gyfer swyddfeydd.

Bydd estyniad y safle yn mynd tua'r de a bydd yn ymgorffori tir y tu cefn i dŷ 'Awelon' sy'n dod o dan yr un berchnogaeth. Defnyddir y tir i ddarparu 14 o leoedd parcio ceir, a darperir un lle parcio anabl wrth ochr yr adeilad newydd. Bydd coed brodorol newydd yn cael eu plannu ar hyd ffin y de.

Ailgyflwyniad yw'r cais hwn o gais A240078 a wrthodwyd yn Ebrill 2024 am y rhesymau canlynol:

1. *Bernir bod y datblygiad arfaethedig yn cael effaith niweidiol sylweddol ar feddianwyr yr eiddo preswyl cyfagos ac felly nid yw'n cydymffurfio â Pholisi DM06 (Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel) a maen prawf 7 o Gynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 (mabwysiadwyd 2013).*

Roedd y cais a wrthodwyd wedi ceisio gosod yr un adeilad ar gyfer swyddfeydd, ychydig i'r gogledd-orllewin i gwmpasu hanner ffin gefn Gwrthwynt (o dan reolaeth yr ymgeisydd) a hanner ffin gefn Delfryn (3ydd parti) gyda'r adeilad storio a adleolir yn meddiannu gweddill y gofod y tu cefn i Delfryn. Felly, er y cynigiwyd bod yr adeilad storio a adleolir yn cael ei symud i ffwrdd oddi wrth Delfryn yn llwyr, mae adeilad deulawr y swyddfeydd bellach wedi'i leoli ar hyd y ffin â Delfryn bron yn gyfan gwbl, dim ond 2m yn ôl o'r ffens dolen gadwyn sy'n croesdorri.

POLISIÄU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

Polisiäu Cynllunio Cenedlaethol perthnasol

- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
- Polisi Cynllunio Cymru (rhifyn 12, Chwefror 2024)
- TAN5 Cynllunio a chadwraeth natur (2009)
- TAN11 Sŵn (1997)
- TAN12 Dylunio (2016)

Polisiäu Cynllunio Lleol perthnasol

Mae'r polisiäu canlynol o'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu ar y cais hwn:

- S01 Twf Cynaliadwy
- S04 Datblygu mewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill
- DM03 Teithio Cynaliadwy
- DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM10 Dylunio a Thirweddu
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol
- DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol
- DM20 Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd

Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd ac sy'n berthnasol:

- Safonau Parcio Cyngor Sir Ceredigion, 2015
- Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio, 2015
- Cadwraeth Natur, 2015

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998

Mae Adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau

amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol y swyddogaethau hyn ar droseddau ac anhrefn o fewn ei ardal, ac i wneud popeth y gall yn rhesymol i atal troseddau ac anhrefn. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd sylweddol neu annerbyniol mewn troseddau ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oed; anabled; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:

- gwaredu neu leihau'r anfanteision y mae pobl yn eu dioddef yn sgil eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl sy'n perthyn i grwpiau gwarchoddedig pan fydd yr anghenion hyn yn wahanol i anghenion pobl eraill;
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghyfartal o isel.

Rhodddwyd sylw dyledus i'r ddyletswydd uchod wrth benderfynu ar y cais hwn. Ystyrir na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn peri goblygiadau sylweddol i bobl â nodweddion gwarchoddedig nac yn cael effaith arnynt sy'n fwy nag ar unrhyw berson arall.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' fel y'i nodir yn Neddf 2015. Wrth roi'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain.

YMATEBION I'R YMGYNGHORI

- **Cyngor Cymuned Beulah** - Cefnogi - "Mae Cyngor Cymuned Beulah yn cefnogi cais D I Evans Cyf i adeiladu swyddfa newydd ac ystafell staff ar gyfer y staff sy'n gweithio yno. Mae'r busnes hwn wedi bod yn gaffaeliad i'r ardal leol gan gyflenwi gwasanaethau hanfodol ers blynyddoedd lawer. Bydd y cais presennol hwn yn diwallu'r gofynion presennol o ran y cyfleusterau a ddisgwylir gan staff sy'n gweithio mewn busnesau tebyg. Ers i'r cais blaenorol gael ei wrthod, mae'r cwmni wedi ailedrych ac wedi newid y cynlluniau a gyflwynwyd, i ddarparu'r hyn y maen nhw'n ei feddwl sy'n gynllun llawer gwell ar gyfer eu hanghenion nhw a rhai eu cymdogion cyfagos. Maent yn hyderus eu bod wedi diwallu anghenion preifatrwydd y cartrefi sy'n amgylchynu eu ffin ac na ddylai fod anawsterau pellach sy'n achosi problemau i'w cymdogion."
- **Priffyrdd** - Dim gwrthwynebiad, yn ddibynnol ar amodau
- **Ecoleg** - Dim gwrthwynebiad, yn ddibynnol ar amodau
- **Draenio Tir** - Mae angen cymeradwyaeth SuDS (System Ddraenio Gynaliadwy). Rhodddwyd cyngor.

I gyd-fynd â'r cais darparwyd llythyr nad yw'n gwrthwynebu a hynny gan y preswylydd yn Delfryn sy'n nodi:

- *"Gan nad oes ffenestri yn fy eiddo sy'n wynebu'r gogledd/dwyrain ac yn edrych dros y busnes, ni fyddai'r adeilad newydd yn cael effaith ar fy amwynder."*
- *"Ar ôl trafod gyda pherchnogion y busnes, ni fydd ei faint yn cael effaith ychwanegol ar fy eiddo, yn wir, rwy'n teimlo y byddai'r cynnig o fudd oherwydd fe fyddai'n darparu rhwystr ychwanegol rhag y gwynt pan fydd hi'n wyntog."*

Gwnaed sylwadau hefyd mewn ymateb i awgrym y Swyddog Achos blaenorol y byddai modd plannu rhes o goed ar hyd y ffin i feddalu'r effaith weledol ac ar amwynder. Fodd bynnag, mae preswylydd Delfryn yn nodi bod ganddo/ganddi alergedd i baill coed ac felly gorau i gyd fyddai osgoi hyn.

Derbyniwyd gwrthwynebiad oddi wrth breswylydd Wionfa (tair annedd i'r de o Delfryn) parthed:

- Gorddatblygu'r safle a chynnydd tebygol yn hyd a lled y gwaith yno
- Effaith sŵn ac arogleuon o'r safle a hynny mewn ardal breswyl
- Bod newid defnydd y tir yn cael effaith andwyol ar bob un o'r pum annedd gerllaw
- Bydd coed yn cymryd blynyddoedd i dyfu i ddarparu sgrin addas
- Pryderon ynghylch dŵr wyneb yn arllwys

Gwnaed sylwadau yn honni bod oriau gweithredu'r safle yn 24 awr a bod anifeiliaid sydd wedi trigo yn cael eu cludo i'r safle neu eu gwaredu ar y safle. Fodd bynnag, gwadwyd hyn gan yr ymgeiswyr sy'n dweud nad ydynt yn gweithredu am 24 awr y dydd ac nad oes ganddynt y trwyddedau angenrheidiol ar gyfer gwaredu ag anifeiliaid sydd wedi trigo. Felly, mae'r materion hyn wedi'u cadw allan o'r crynodeb uchod o ran materion o wrthdaro.

CASGLIAD

Dywed Adran 38 (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004: "Os rhoddir ystyriaeth i'r cynllun datblygu er mwyn gwneud penderfyniad o dan y Deddfau Cynllunio, bydd yn rhaid i'r penderfyniad hwnnw fod yn unol â'r cynllun oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall."

Egwyddor y Datblygiad

Ystyrir bod safle'r cais yn gorwedd o fewn Anheddiad Cyswllt Beulah. Mae Polisi S04 y Cynllun Datblygu Lleol yn cydnabod bod angen rhywfaint o ddatblygu o fewn Anheddiad Cyswllt i ddiwallu anghenion y gymuned. Serch hynny, gan eu bod yn llai cynaliadwy, caniateir datblygu mewn aneddiadau cyswllt dim ond pan fydd hyn yn cwrdd â'r meini prawf a nodir yn y polisi. O ran y cais, ni fyddai'r datblygiad yn arwain at golli gwasanaethau a chyfleusterau o fewn y Ganolfan Gwasanaethau.

Mae'r cais yn nodi y byddai'r swyddfa newydd yn darparu amgylchedd gwaith gwell i'r staff a fydd yn fwy addas i'r diben ac a fyddai hefyd o fudd i ddefnyddwyr o'r cyhoedd wrth iddynt ymweld â'r safle. Nid yw'r cynnig yn cyflwyno busnes newydd ond yn hytrach mae'n darparu llety swyddfa o ansawdd gwell i fusnes sy'n bodoli eisoes, rhywbeth sy'n cael ei gefnogi mewn egwyddor.

O ran yr estyniad i'r safle, er ei fod yn fwy na'r hyn a gynigiwyd gan y cais blaenorol, mae'r ardal estynedig yn dal i fod wedi'i chyfyngu i dir y tu cefn i dŷ presennol Awelon (sydd o dan reolaeth yr ymgeisydd) ac sy'n rhan o ffurf adeiledig y pentref, felly ni fydd ymwithio i'r cefn gwlad agored. Mae effaith yr estyniad ar amwynder yn cael ei drafod isod.

Mae Egwyddor y Datblygiad yn dderbyniol, yn unol â pholisi S04 y Cynllun Datblygu Lleol.

Ei faint, ei Ddyluniad a'i Effaith Weledol ar y Tirwedd

Ystyrir bod maint arfaethedig y datblygiad yn gymesur â safle'r cais a'r busnes, a bydd yn fwy pleserus i'r llygad na'r adeilad presennol sydd ar y safle. Ar ben hynny, nid oes effeithiau gweledol ar y tirwedd o ganlyniad i symud yr adeilad storio presennol i wneud lle ar gyfer adeilad newydd y swyddfeydd.

Mae'r ardal estynedig yn nodedig o ran maint ond ni fernir ei bod yn cael effaith weledol andwyol ar y tirwedd gan nad yw'n ymwithio i gefn gwlad agored a bydd coed newydd yn cael eu plannu ar hyd ffiniau'r de a'r dwyrain. Bydd yn cael ei gweld yng nghyd-destun y busnes sydd ar y safle ar hyn o bryd, a ffurf adeiledig y pentref.

Felly, mae'r datblygiad arfaethedig yn dderbyniol yn unol â Pholisïau DM06 a DM17 y Cynllun Datblygu Lleol sy'n ceisio sicrhau bod datblygu'n digwydd â dyluniad o safon sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ei gyd-destun ac sydd ddim yn cael effaith andwyol sylweddol ar ei amgylchedd yn gyffredinol.

Amwynder Preswylwyr

Mae maen prawf 7 o DM06 yn ceisio diogelu amwynder meddianwyr y tai cyfagos o ran preifatrwydd, sŵn a golygon.

Bydd yr adeilad newydd a gynigir ar gyfer y swyddfeydd yn ymestyn i fod yn ddeulawr a bydd yn llwyr wrth ffin gefn Delfryn, yn ôl gan 2m o'r ffin a rennir. Bydd yr adeilad yn sefyll 2.2m yn dalach wrth y bondo (~ 5.1m) a 2.3m yn dalach wrth ei grib (~ 6.4m) o gymharu â'r adeilad presennol a bydd yn cynnwys 8 ffenest a fydd yn wynebu'r man amwynder y tu cefn i Delfryn gan gwmpasu 4 toiled, dwy ystafell staff, ystafell storio a grisiau.

Fel y nodir uchod, mae Delfryn yn nwylo trydydd parti ac mae'n rhannu ei ffin gefn gyfan gyda safle'r busnes. Ar hyn o bryd, dim ond cyfran fach o ffin gefn yr annedd sy'n ffinio â'r adeilad storio unllawr presennol, felly mae'r datblygiad arfaethedig yn golygu codi adeilad talach ar hyd mwy o ffin gefn yr annedd, ac mae'n cynnig defnydd mwy dwys na storfa syml - hynny yw, swyddfeydd / manau cyfarfod.

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn bod y datblygiad yn annerbyniol oherwydd y niwed y byddai'r adeilad yn ei achosi o ran amwynder, yn bennaf ei effaith ar y preifatrwydd a fwynheir gan ardal amwynder gefn yr annedd yn sgil dwysáu ei ddefnydd a'r ffenestri niferus sy'n wynebu'r annedd. Hefyd yr ymdeimlad o ddatblygiad sy'n tra-arglwyddiaethu yn sgil lleoliad, uchder a lled yr adeilad. O ran y pryder diwethaf, dylid nodi bod yr ardal amwynder y tu cefn i Delfryn yn gorwedd islaw'r safle cyffiniol gan 1m, ac felly bydd uchder yr adeilad yn amlycach eto. Byddai hyn, ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, yn arwain at niwed annerbyniol i amwynder.

Fel y nodir yn yr adroddiad hwn, ailgyflwyno cais cynharach A240078 a wneir gyda'r cais hwn, a gwrthodwyd hwnnw yn Ebrill 2024 ar sail y niwed i amwynder, yn groes i Faen Prawf 7 o bolisi DM06. Ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, er darparu byffer o 2m o'r ffin, mae'r gwelliannau a gynigir yn y cais hwn wedi - mewn gwirionedd - gwaethygu'r niwed posib i amwynder annedd Delfryn yn sgil ail-leoli'r adeilad i gwmpasu bron y cyfan o'r cwrtail cefn. Yn dilyn cyfarfod safle gyda'r asiant a'r ymgeisydd, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn glynu wrth y farn hon ac yn barnu bod y cynnig yn annerbyniol.

Mae cyfyngiadau / gofynion yr ymgeiswyr o ran golygon dros y safle, diogelwch a mynedfa/allanfa i gerbydau mawr yn cael

eu cydnabod, ond nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn mai'r lleoliad a gynigir ar gyfer yr adeilad yw'r unig opsiwn ar gyfer adeilad o'r fath – yn wir, y lleoliad a ddewiswyd yw'r unig leoliad ar y safle cyfan sy'n ffinio â thir trydydd parti. Ar y sail hon, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn bod cyfleoedd dyls i ddarparu'r adeilad mewn mannau eraill ar y safle a hynny heb effeithio ar drydydd parti i'r un graddau – gan gynnwys yn lle'r swyddfeydd presennol yn y portacabinau sy'n sefyll yng nghanol y safle ac sy'n mynd i gael eu symud, beth bynnag, yn ôl y cynnig.

O ran ehangu'r safle, mae eiddo Awelon yn dod o dan yr un berchnogaeth a bydd yn parhau i gael gardd fawr. Byddai'r adeilad a adleolir a'r maes parcio ceir yn ddigon pell i ffwrdd o'r eiddo fel na fydd yn cael effaith niweidiol sylweddol ar ei amwynder. Byddai'r gwaith tirlunio a gynigir hefyd yn helpu i sgrinio rhan o'r datblygiad.

O ystyried agosrwydd yr adeilad a'r gweithgarwch cysylltiedig i'r tai cyfagos, ystyrir bod angen gosod amod sy'n cyfyngu ar y defnydd a wneir o'r adeiladau yn y cais h.y. adeilad swyddfa, adeilad storio, a maes parcio ceir, er mwyn amddiffyn eu hamwynder nhw ac eraill yn y cyffiniau. Byddai oriau gweithredol y safle yn sefyll fel y'u caniateir ar hyn o bryd.

I gloi, er bod y safle presennol eisoes yn cael effaith ar amwynder Delfryn, ystyrir bod darparu adeilad deulawr sy'n cynnwys ffenestri niferus a hynny bron yn union wrth ffin gefn yr eiddo yn amharu ar breifatrwydd ac ehangder yr annedd i raddau sy'n annerbyniol. O ganlyniad, nid yw'r cynnig yn cydymffurfio â Maen Prawf 7 o Bolisi DM06 y Cynllun Datblygu Lleol.

Cydnabyddir sylwadau'r un sy'n byw yn Delfryn, fodd bynnag, nid yw'r ffaith nad oes ffenestri yn yr annedd sy'n wynebu'r gogledd yn lleihau'r effaith ar ei amwynder cyffredinol fel tŷ preswyl, ac nid yw amwynder yn gyfyngedig i'r mannau y tu mewn. Dylai cwrtill unrhyw annedd ddarparu gofod gwerthfawr a defnyddiol yn yr awyr agored er lles preswylwyr presennol yr annedd a'r rhai a ddaw yn y dyfodol, am byth. Yn yr achos hwn, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn y byddai'r datblygiad arfaethedig yn niweidio'n sylweddol amwynder bwy bynnag sy'n preswyllo yn Delfryn.

Nid yw'r sylwadau a wnaed parthed bod yr adeilad yn mynd i weithredu fel rhwystr rhag y gwynt yn cael eu hystyried yn ystyriaethau cynllunio perthnasol.

Priffyrdd

Nid yw'r datblygiad arfaethedig yn dwysáu'r busnes presennol ar y safle, ac nid yw ychwaith yn arwain at gynyddu nifer y staff. Nid yw'r fynedfa bresennol ar y Ffordd Sirol yn newid. Mae'r cynnig yn darparu lleoedd parcio ffurfiol ynghyd â lleoedd parcio ychwanegol. Nid yw'r awdurdod priffyrdd lleol wedi gwrthwynebu, yn ddibynol ar amodau parthed dŵr wyneb a bod y mannau parcio ceir yn cael eu darparu cyn i'r datblygiad gael ei ddefnyddio gyntaf. Felly ni fydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar faterion sy'n ymwneud â'r priffyrdd.

Mae Polisi 12 - Cysylltedd Rhanbarthol 'Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040' yn nodi, lley darperir lleoedd parcio ceir ar gyfer datblygiad di-breswyl, dylai awdurdodau cynllunio geisio sicrhau bod gan o leiaf 10% o leoedd parcio ceir fannau gwefru cerbydau trydan. Dylai'r datblygiad felly ddarparu o leiaf 1 man gwefru cerbydau trydan, y gellir ei sicrhau drwy amod cynllunio wedi'i eirio'n briodol.

Safleoedd Gwarchoddedig

Saif y safle yn nalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi sy'n methu â chyrraedd ei dargedau ar gyfer ffosffadau. Mae'r cynnig wedi cael ei sgrinio fel un nad yw'n debygol o gael effaith sylweddol ar Afon Teifi yn sgil fwy o ffosffadau, yn unol â'r "Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i ffosfforws" gan Gyfoeth Naturiol Cymru, fersiwn 4, diweddarwyd ym Mehefin 2024. Ni fydd cynnydd mewn ffosffad yn sgil y datblygiad hwn ac nid yw'n debygol o gael effaith sylweddol ar Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi.

Rhywogaethau a warchodir

Ni chyflwynwyd asesiad ecolegol gyda'r cais hwn. Casglwyd gwybodaeth o'r Datganiad Seilwaith Gwyrdd, cofnodion lleol a delweddau lloeren. Mae'r safle'n cynnwys adeiladau a llawr caled a bydd angen cael gwared ar ddarn o berth Leylandii a rhan fach o'r lawnt sydd yno. Ni fydd unrhyw goed a nodir i'w symud yn cael eu symud yn ystod tymor nythu'r adar - rhwng 1 Mawrth a 31 Awst, oni bai bod cadarnhad ysgrifenedig gan ecolegydd cymwys yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol yn nodi bod arolwg wedi'i gynnal ac wedi canfod na fyddai adar magu, eu cywion, nythod nac wyau yn cael eu tarfu gan y gwaith sydd i'w wneud. Os canfyddir adar magu, eu cywion neu'u hwyau, ni ellir gwneud gwaith hyd nes bod y tymor nythu wedi dod i ben neu hyd nes eu bod wedi gadael y nyth ac nad oes tystiolaeth eu bod yn dychwelyd.

Yn unol â'r diweddariadau i Bolisi Cynllunio Cymru 12 Pennod 6, dylid plannu coed er mwyn digolledu ar gymhareb o dair coeden am bob coeden a gollir, fodd bynnag, nodir mai rhywogaethau brodorol yw'r coed y cynigir eu plannu a bydd hyn yn darparu gwelliant. Felly derbynnir y bydd y gymhareb yn llai er mwyn caniatáu i'r coed fwrw gwreiddiau yn llwyr.

Nid oes cynlluniau goleuo wedi'u cyflwyno gyda'r cais. Os bydd angen goleuadau allanol ar y datblygiad arfaethedig bydd angen eu hystyried yn ofalus a bydd angen nodi mesurau i leihau'r effaith ar fywyd gwylt y nos wrth iddynt symud a thwrio am fwyd yn yr ardal.

Gellir sicrhau'r rhain drwy amodau cynllunio.

Asesiadau Seilwaith Gwyrdd

Mae'r safle yn ei gyfanrwydd yn ymestyn i tua 1.5 hectar ac mae nifer o adeiladau ar y safle ar hyn o bryd, gan gynnwys adeiladau storio, adeiladau'r cyfleuster sortio a 'phortacabinau' ar gyfer y staff. Mae'r safle yn ffinio â chaeau amaethyddol tua'r Gogledd. I'r de, mae rhes o anheddau preswyl wedi'u lleoli ac mae ochr orllewinol safle'r cais yn ffinio â'r B4333, sy'n rhoi mynediad i'r safle, ac mae gwelededd da i'r ddau gyfeiriad. Mae'r rhan fwyaf o safle'r cais yn dir llwyd sydd wedi ei osod â choncrit a tharmacadam.

Mae'r ffiniau i'r safle yn cynnwys perthi a choed eisoes, a chedwir pob perth, fodd bynnag bydd y coed ar ffin y De yn cael eu symud i wneud lle i'r maes parcio ceir. Er mwyn lliniaru unrhyw effaith negyddol bosib, bydd y cynnig yn cynnwys cyflwyno rhywogaethau o goed brodorol y bernir eu bod yn welliant o ystyried nad yw'r coed Leylandii presennol yn frodorol. Mae cynllun arfaethedig y bloc yn tynnu sylw at amrywiaeth o rywogaethau brodorol a fydd yn cael eu plannu ar ffin ddeheuol estynedig y safle. Gellir sicrhau hyn drwy amod cynllunio.

Mantais net o ran Bioamrywiaeth

Yn unol ag Adran 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Phennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru, rhaid i awdurdodau cynllunio geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau, gan gynnwys drwy'r broses cynllunio. Ni ddylai datblygiadau achosi colled sylweddol yn lleol o ran cynefinoedd neu boblogaethau rhywogaethau a rhaid iddynt ddarparu budd net o ran bioamrywiaeth. Hefyd gwella neu hwyluso gwytnwch ecosystemau drwy eu bod yn cynnwys gwelliannau ecolegol. Bydd gosod blwch nythu adar ar adeilad newydd y swyddfeydd a phlannu coed brodorol ar y safle yn helpu i sicrhau bod y datblygiad yn cyflawni ei ddyletswydd i hybu bioamrywiaeth yn unol â pholisïau DM06, DM14 a DM15 y Cynllun Datblygu Lleol ac yn unol â chanllawiau Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru - ar 11/10/2023 - ar fantais net o ran Bioamrywiaeth.

Draenio Tir

Bydd angen cymeradwyaeth SuDS oddi wrth Gorff Cymeradwyo'r Cyngor ar Systemau Draenio Cynaliadwy a gellir ymdrin â dŵr wyneb drwy'r broses hon.

Mae dŵr brwnt yn draenio i'r garthffos gyhoeddus ar hyn o bryd ac ni fydd hyn yn newid fel rhan o'r cais hwn.

ARGYMHELLIAD:

Argymhellir **gwrthod** y cais am y rheswm canlynol:

1. Oherwydd ei leoliad, ei faint a'i ddyluniad, bernir bod yr adeilad a gynigir ar gyfer swyddfeydd yn peri niwed annerbyniol i amwynder yr annedd sy'n dwyn yr enw Delfryn a hynny yn groes i Faen Prawf 7 o bolisi DM06 y Cynllun Datblygu Lleol.

MAE'R CAIS WEDI'I GYFEIRIO I'R PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU AR GAIS Y CYNGHORYDD CHRIS JAMES AM Y RHESYMAU CANLYNOL:

Mae'r safle yn un pwysig iawn i brosesau triniaethau amgylcheddol yr ardal ac mae'n braf cael gweld y cwmni bodlon buddsoddi yn y busnes er mwyn trefn effeithlonedd trefniadau'r busnes nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r safle wedi gweithredu ar faterion amgylcheddol ers degawdau ac wedi dod ymlaen yn dda iawn gyda'u cymdogion yn ystod y cyfnod. Mae'r ymgeiswyr yn awyddus iawn i gadw'r berthynas dda hon gyda'r cymdogion ac wedi gwneud pob ymdrech i lunio'r cynllun fel bod yna ddim effaith andwyol ar y cymdogion. Yn wir does ddim gwrthwynebiad wedi dod o'r bobol sy'n ffinio gyda'r datblygiad arfaethedig.

Mae'r cynllun hefyd yn gorfod ystyried anghenion gweithredu y safle, sy'n hanfodol i lwyddiant y busnes:

- *Ile i loriau artic dod i mewn a throi yn ddiogel,*
- *angen golwg uniongyrchol o'r bont bwysu mewn unrhyw swyddfa orffenedig.*

Mae'r ymgeiswyr wedi cael trafodaethau gyda swyddogion cynllunio'r Sir ac wedi ceisio addasu yn ôl eu trafodaethau.

Serch yr addasiadau mae'r cwmni'n teimlo nad yw'n ymarferol i newid mwy ar y cynllun neu fe fydd yn anymarferol. Mae'r broses wedi cyrraedd y man lle taw mater o farn gwahanol sydd mwyach yn atal y datblygiad rhag mynd yn ei flaen.

Dwi'n teimlo bod yr achos yn haeddu gwrandawriad o flaen y pwyllgor rheoli datblygiadau, bydd hwn yn gyfle i chi'r swyddogion i leisio'ch pryderon ac i'r cynghorwyr etholedig democrataidd liwio eu barn.

RHESWM DROS OHIRIO:

Penderfynodd y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn ei gyfarfod ar 9 Hydref 2024 gyfeirio'r cais i'r Pwyllgor Safle yn unol â Pharagraff 4 o feini prawf mabwysiedig y Cyngor.

Cyfarfu'r y Pwyllgor Safle ar Ddydd Iau 24ain Hydref ac roedd y panel yn cynnwys y Cynghorwyr Ifan Davies (Cadeirydd), Gareth Lloyd, Gethin Davies, Sian Maehrlein, a Marc Davies. Hefyd yn bresennol roedd y Cyng Chris James (mewn swyddogaeth arswyl fel Aelod Ward Lleol) a Mrs Catrin Newbold a Mr Owain Evans o'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI). Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng Amanda Edwards fel cyd-Aelod Ward am ei hanallu i fod yn bresennol.

Cyflwynodd Mr Evans y cais ac amlinellodd y rhesymau pam yr oedd swyddogion yn argymhell gwrthod y cais ar y sail y byddai'r datblygiad arfaethedig yn achosi niwed annerbyniol i fwynderau'r annedd a elwir Delfryn oherwydd ei faint a'i leoliad o fewn y safle.

Archwiliwyd y safle ar gyfer y datblygiad arfaethedig gan yr aelodau gan nodi graddfa a lleoliad yr adeilad arfaethedig o gymharu â'r adeilad presennol ar y safle.

Nododd y Panel y canlynol:

- Nid oes gan Delfryn unrhyw ffenestri sy'n wynebu safle'r cais
- Gallai'r adeilad arfaethedig weithredu fel sgrîn gwynt i Ddelfryn
- Nid yw perchennog presennol Delfryn wedi gwrthwynebu
- Byddai unrhyw brynwr y tŷ yn y dyfodol yn ymwybodol o'r adeilad pe bai'n cael ei gymeradwyo
- Mae'r tŷ drws nesaf 'Awelon' yn nes at Delfryn na'r adeilad arfaethedig
- Byddai iechyd a diogelwch ymwelwyr â'r safle yn elwa o leoliad yn agosach at y brif fynedfa

Gofynnodd y Panel i'r Swyddogion trafod y pwyntiau canlynol gyda'r ymgeisydd:

1. A ellid gosod yr adeilad yn is o fewn y safle i gyd-fynd ag ardal y brif iard a lleihau ei uchder cyffredinol
2. A ellid defnyddio gwydr cymylog ar y ffenestri llawr cyntaf sy'n wynebu'r cefn
3. Am ba resymau y diystyrwyd lleoliadau eraill o fewn y safle
4. A fyddent yn fodlon ail-leoli'r adeilad i'r hyn a gynigiwyd yn flaenorol, i hanner ffiniau priodol Delfryn a Gwrthwynt

Daeth y cyfarfod i ben wedi hynny.

Darparwyd rhagor o wybodaeth a chynlluniau ategol ar ddydd Gwener 25ain a dydd Iau 31ain Hydref i gadarnhau / darlunio'r canlynol:

1. Mae lefel daear yr adeilad wedi ei ostwng gan 850mm i fod yn wastad gyda'r brif iard
2. Mae gwydr pob ffenestr sy'n wynebu'r cefn wedi'u cymylu
3. Cafodd lleoliadau eraill o fewn y safle eu diystyru am y rhesymau a ganlyn:
 - **Diogelwch Trafnidiaeth** -- Er budd symudedd lorïau HGV o fewn y safle
 - **Diogelwch Pobl** -- Mae'r lleoliad a dyluniad arfaethedig yn darparu'r amgylchedd gwaith gorau i weithwyr, cwsmeriaid ac ymwelwyr
 - **Diogelwch Gweithredol** -- Sicrhâd o linellau gweld i'r bont bwysu a'r rhan fwyaf o weithrediadau ar yr iard. Hefyd yn caniatáu i weithrediadau'r busnes gael eu cynnal yn ystod y gwaith adeiladu (os caiff ei gymeradwyo)
 - **Ystyried Cymdogion** -- Maent wedi ymrwymo i ddarparu gofod o 2m o'r ffin, sy'n fwy na'r adeilad presennol. Hefyd yn darparu sgrîn i Ddelfryn rhag gweithrediadau'r safle
 - **Ffactorau Amgylcheddol** -- Mae'r lleoliad arfaethedig yn caniatáu aildefnyddio'r adeilad presennol, cynnal allbynnau, a lleihau aflonyddwch i greu adeilad a fydd yn gwella effeithlonrwydd ynni
4. Ni fyddai'r lleoliad blaenorol yn bosibl am y rhesymau ag amlinellwyd ym Mhwynt 3 ynghylch diogelwch trafndiaeth

Rhif y Cais / Application Reference	A240479
Derbyniwyd / Received	24-06-2024
Y Bwriad / Proposal	Erection of an office building, retention of storage building, creation of car parking area and associated works.
Lleoliad Safle / Site Location	D.i. Evans Cyf, Gwrthwynt, B4333 Beulah, Newcastle Emlyn, Ceredigion, SA38 9QE
Math o Gais / Application Type	Full Planning
Ymgeisydd / Applicant	D I Evans (D I Evans Cyf), Gwrthwynt, Beulah, Newcastle Emlyn, Ceredigion, SA38 9QE
Asiant / Agent	Mr Daniel Lintin (JMS Planning and Development), Unit 4 Lower Ground Floor, Creuddyn Pontfaen Road, Lampeter, Ceredigion, SA48 7BN

THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY

The application site refers to the business known as D.I Evans which is located at the northern end of the village of Beulah. The site is bound to the north, east and west by agricultural fields, with residential dwellings forming a linear form of development along the village road to the south. The site extends to some 1.5ha with numerous buildings currently on site, including storage buildings, sorting facility buildings and 'portacabins' for staff. The site is set back approx. 40 metres from the main road located to the rear of three dwellings known as Gwrthwynt, Delfryn, and Awelon -- the first and third of which fall under the ownership of the site operators. The dwelling of Delfryn is owned by a third-party.

D.I Evans is a family operated business, originally providing service as an agricultural contractors who have expanded to the waste management sector providing a range of services such as skip hire, waste disposal and recycling, septic tank emptying, drain surveys and sewer connections. The site has been utilised as a waste management centre since 1960. The business employs 11 full time staff members and 6 part time staff members.

Relevant Planning History

- 980250CL – Certificate of Lawful Use – Erection of concrete block and framed and clad buildings –**Approved STC (11/05/1998)**
